1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

27 Mawrth 2007

Ysgolion yn dangos gwelliant mewn safonau TGCh

Heddiw, mae Estyn yn adrodd bod safonau cyflawniad mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Ond mae ysgolion cynradd wedi gwella yn gyflymach nag ysgolion uwchradd. Canfu arolygiadau Estyn yn ystod 2005-06 fod safonau TGCh mewn dwy o bob tair ysgol gynradd naill ai'n dda neu'n dda iawn, ond ychydig dros hanner o ysgolion uwchradd yn unig oedd yn cyrraedd yr un safonau.

'Mae defnydd da o TGCh yn gwella cymhelliant, awydd a chanolbwyntio disgyblion yn eu gwersi. Gellir gwella addysgu a dysgu trwy ddefnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol, camerâu digidol, meddalwedd rhwydweithio ac ymchwil rhyngrwyd. Gall y rhain helpu i ennyn trafodaethau ymhlith disgyblion ac egluro eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o destunau,' meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn gyffredinol wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Gronfa Ysgolion Gwell wrth ddarparu hyfforddiant TGCh ar gyfer athrawon. Er 2002, gwnaed cynnydd yn y mwyafrif o ysgolion cynradd ac arbennig wrth sicrhau bod gan staff y medrau a'r hyder i addysgu TGCh. Ond canfu Estyn arfer dda debyg mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig.

Canfu Estyn hefyd fod safonau cyflawniad mewn TGCh yn amrywio'n ormodol o un ysgol i'r llall a hyd yn oed rhwng dosbarthiadau yn yr un ysgol. Mae hyn yn arbennig

o wir mewn llawer o ysgolion uwchradd lle rhoddir sylw annigonol i adeiladu ar brofiad disgyblion o TGCh yn yr ysgol gynradd. Mae amrywiadau eang mewn datblygu medrau TGCh rhwng adrannau pwnc mewn ysgolion uwchradd hefyd yn cyfrannu at y safonau cyffredinol is mewn TGCh o'u cymharu ag ysgolion cynradd.

Mae tystiolaeth arolygu yn dangos lle mae ysgolion wedi gwneud y gwelliannau mwyaf mewn TGCh, bod arweinwyr a rheolwyr ar draws yr ysgol wedi cael rôl bwysig. Mae cefnogaeth gref gan y pennaeth ac uwch reolwyr sy'n rhoi blaenoriaeth i TGCh wedi helpu i gynyddu'r defnydd effeithiol o TGCh mewn ysgolion. Mae athrawon sy'n gwneud defnydd effeithiol o TGCh yn eu gwersi yn gweithredu fel modelau ar gyfer athrawon sy'n llai hyderus neu nad oes arbenigedd ganddynt.

Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer TGCh mewn ysgolion, mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol weithio gyda'i gilydd yn agosach i ddatblygu mwy o gysondeb mewn safonau cyflawniad mewn TGCh, rhwng dosbarthiadau yn yr un ysgolion ac o un ysgol i'r llall.

Gall mentrau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cysylltu'r medrau TGCh a ddatblygwyd yng nghyfnod allweddol 2 â'r rheiny sydd eu hangen yng nghyfnod allweddol 3 helpu hefyd. Mae Estyn yn argymell y dylai pob ysgol sicrhau bod parhad a dilyniant mewn datblygu medr TGCh pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i ddarparu cyllid ar gyfer TGCh mewn ysgolion trwy'r 'Gronfa Ysgolion Gwell' a darparu canllawiau i ysgolion ac AALlau ar sut i arfarnu effaith TGCh ar ddysgu disgyblion.

Nodiadau i'r Golygydd:

- Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Nod Estyn yw gwella safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a amlinellir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Arfarniad o Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer TGCh mewn Ysgolion' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae wedi'i

gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk

- Mae'r canfyddiadau yn adroddiad Estyn yn berthnasol i'r holl gyllid TGCh gan nad yw AALlau ac ysgolion yn gwahanu'r Gronfa Ysgolion Gwell oddi wrth unrhyw gyllid arall a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth TGCh.

- Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys:
  - Dadansoddiad o adroddiadau arolygu ysgolion ar gyfer 357 o ysgolion cynradd ac 85 o ysgolion uwchradd rhwng mis Medi 2002 a mis Mehefin 2006.
  - Dadansoddiad o dueddiadau mewn safonau TG yng nghyfnod allweddol 3 a 4 rhwng 2002-2006.
  - Ymweliadau â 9 AALl, 8 ysgol gynradd, 9 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig.

Am ragor o wybodaeth a chyfleoedd cyfweld, cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464